

WILLIAMS, THOMAS ('Capelulo'; c.1782 - 1855), meddwyn diwygiedig, llyfrwerthwr teithiol, cymeriad

**Enw:** Thomas Williams

**Ffugenw:** Capelulo

**Dyddiad geni:** c.1782

**Dyddiad marw:** 1855

**Rhyw:** Gwryw

**Galwedigaeth:** meddwyn diwygiedig, llyfrwerthwr teithiol, cymeriad

**Maes gweithgaredd:** Diwydiant a Busnes; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Perfformio

**Awdur:** Brynley Francis Roberts

Ganwyd yn Llanrwst, Dinbych, tuag 1782, yn fab i ffeltiwr a phobwraig. Hanai ei deulu o Gapelulo, Dwygyfylchi, Conwy, a dyna sut y cafodd ei lysenw. Bu'n ostler ac yn yrrwr cerbyd am ychydig cyn mynd yn filwr ac ymladd ar y cyfandir yn rhyfeloedd Napoleon, ac yna dreulio cyfnodau dramor yn ne Affrica, de America a'r India. Achosodd ei wendid at y ddiod lawer o helyntion a thrafferthion iddo yn y fyddin ac ar ôl dychwelyd adref, a bu'n byw ar gardota, difyrru, canu ac adrodd hanes ei droeon trwstan a'i anturiaethau. Os oedd yn feddwyn a phuteiniwr yn byw bywyd ofer, ni ellir amau ei ddawn fel storiwr llafar, a dyna'r hyn a'i nodweddai ar ôl ei dröedigaeth tuag 1840. Bu'n ddirwestwr selog ac yn areithydd peryglus o ddoniol dros yr achos. Tyfodd yn gryn gymeriad, yn enwog am ei ddywediadau bachog, ei ddiniweidrwydd (ymddangosiadol, gan ei fod yn gymysg â thipyn o graffter yn fynych pan geisid ei bryfocio), ei ddoniolwch a'i allu i ddifyrru cynulleidfaoedd o bob math gyda hanesion ei fywyd ofer a diwygiedig.

Ei brif noddwr oedd [John Jones](#) yr argraffydd o Lanrwst (1786 - 1865) a fu'n dipyn o gefn iddo ac a'i galluogodd i ennill bywoliaeth trwy werthu caneuon a baledi, almanaciau a llyfrau.

Prif ffynhonnell yr hyn a wyddys am 'Gapelulo' yw ei hunangofiant ([Hanes bywyd Thomas Williams, yr hwn a adwaenid wrth yr enw Thomas Capelulo. A ysgrifenydd o'i enau ef ei hun](#)) a gyhoeddwyd gan [John Jones](#) yn 1854. Fersiwn llenyddol yw hwn o'r hyn a adroddwyd 'o'i enau ei hun' gan yr awdur ac mae'n nodedig am onestrwydd yr hanes cyn ei dröedigaeth fel ar ei hôl. Seiliwyd cofiant [Robert Owen Hughes](#), 'Elfyn', 1907 ar yr hunangofiant ond gan gywain hefyd lawer o'r straeon a oedd yn cylchredeg ar lafar neu a geid yn y cylchgronau a chan lwyddo yn ogystal i gadw blas iaith fywiog 'Capelulo' ei hun. Bu farw yn Llanrwst a'i gladdu yno yn 73 mlwydd oed 14 Chwefror 1855.

## Awdur

Dr Brynley Francis Roberts

## Ffynonellau

Adargraffwyd yr hunangofiant, gyda rhagymadrodd, gan Gerald Morgan, *Lle diogel i sobri, sef hunangofiant Thomas*

*Williams (Capelulo)* (Llanrwst 1982)

Robert Owen Hughes (Elfyn), *Capelulo* (Caernarfon 1907, 1927)

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q28360856](https://www.wikidata.org/wiki/Q28360856)

Dyddiad cyhoeddi: 1997

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

